# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Undod rhwng Cenedlaethau
**Dydd Llun 13 Rhagfyr 2021**

### Yn bresennol

Delyth Jewell AS, Cadeirydd
Peredur Owen Griffiths AS
Josh Hayman, Ysgrifenyddiaeth
Becky Ricketts, NUS Cymru
Carol Maddock, Prifysgol Abertawe
Catrin Hedd Jones, Prifysgol Bangor
Dan Townsend, Youth Cymru
Deborah Morgan, Prifysgol Abertawe
Dereck Roberts, NPC Cymru
Helen Twidle, Age Cymru
Laraine Bruce
Liz Jones, Prifysgol Abertawe
Lynda Wallis, Senedd Pobl Hŷn Cymru
Marie-Clare Hunter, Enrich Cymru
Michelle Lewis, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Neil Williams, Gofal a Thrwsio
Nia Richards, Tybed
Phoebe Brown, Caffi Atgyweirio Cymru
Steff Green, Prifysgol Abertawe
Stephen Burke, United for All Ages
Steve Milsom, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru
Sue Egersdorff, Ready Generations
Tim Crahart, Shared Lives Plus
Tom Magner, Carers World Live

### Ymddiheuriadau

Mirain Llwyd Roberts, Pontio'r Cenedlaethau
Ceri Cryer, Age Cymru
Carole Phillips, Kidscape

1. **Croeso a chyflwyniadau – Delyth Jewell AS**
2. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cytunodd y grŵp bod y cofnodion yn gywir.

3. **Gwaith Blaenoriaeth Oedraniaeth – Michelle Lewis, Catrin Hedd Jones a Stephanie Green**

Dywedodd ML wrth y grŵp fod CHJ a SG wedi cytuno i arwain y maes gwaith hwn ar y cyd. Mae'r tîm wedi llunio rhestr o themâu i edrych arnynt: gwrthdaro rhwng cenedlaethau yn y cyfryngau, storïau ac enghreifftiau cadarnhaol, a chystadleuaeth ffotograffiaeth.

Dywedodd ML ei bod yn ystyried cysylltu â phrifysgolion sydd â chyrsiau newyddiaduriaeth er mwyn siarad ynglŷn â'r ffordd y mae cenedlaethau'n cael eu gosod yn erbyn ei gilydd yn y cyfryngau drwy ddarlith wadd am undod rhwng cenedlaethau neu drwy baratoi canllawiau y gellir eu rhannu â myfyrwyr a darlithwyr. Mae hefyd yn fodlon cael trafodaeth â darlithwyr a myfyrwyr am bethau eraill a allai weithio.

Dywedodd SG ei bod wedi rhannu stori am ei phrofiadau yn datblygu perthynas fel ffrind â dyn hŷn yn ystod y cyfnod clo – mae'n awgrymu ein bod yn cael cystadleuaeth agored lle gall pobl rannu eu storïau am brofiadau cadarnhaol rhwng cenedlaethau cyn wythnos pontio'r cenedlaethau, yn ogystal â chael cystadleuaeth ffotograffiaeth yn dangos cenedlaethau'n cysylltu. Ychwanegodd y byddai'n hoffi i Aelodau o'r Senedd fod yn feirniaid

a chynnal arddangosfa yn y Senedd. Mae hefyd wedi llunio canllawiau yn nodi sut y gallai pobl ysgrifennu'r storïau neu dynnu'r lluniau, e.e. yn ymwneud â thynnu manylion adnabod o storïau.

Ychwanegodd CHJ ei bod yn gobeithio y bydd y gwaith hwn yn codi ymwybyddiaeth o wythnos pontio'r cenedlaethau a hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'n gwaith ni ledled Cymru. Awgrymodd ein bod yn cael pobl o wahanol genedlaethau i ymuno â'r panel beirniadu ac y byddai'n syniad da trefnu ymweliad i weld yr arddangosfa yn y Senedd.

**GWEITHREDU: Bydd JH yn rhannu manylion er mwyn i Michelle allu cysylltu**

Croesawodd DJ yr awgrymiadau a gofynnodd a fyddai'n un gystadleuaeth ynteu ddwy?

Dywedodd CHJ y gallai fod yn un neu'n ddwy, ond y byddai'r delweddau'n ffordd gadarnhaol o fynd i'r afael â gwrthdaro neu dynnu sylw at gyswllt cadarnhaol rhwng cenedlaethau. Gofynnodd a fyddai'n bosibl cael cefnogaeth ariannol ar gyfer hyn.

Cymeradwyodd y grŵp yr awgrymiadau. Awgrymodd DJ y dylai hi a'r Is-gadeiryddion fod ar y panel a gofynnodd i'r grŵp feddwl am bobl eraill a allai fod yn rhan o'r panel.

Dywedodd ML y gallai beirniadu'r storïau fod yn dasg anoddach o bosibl, ac y gallai beirniadu'r lluniau fod yn dasg haws – byddai'n dda cael y storïau i'w rhannu gyda chymunedau ac fel rhan o'r arddangosfa. Ychwanegodd SG fod cyfle i gyhoeddi'r storïau fel casgliad byr hefyd.

Croesawodd CM y syniad o arddangosfa a chasgliad o storïau – awgrymodd y dylid rhoi'r dewis i bobl pan fyddant yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth, a ydynt yn dymuno i'w stori hwy gael ei chynnwys yn y cyhoeddiad.

Gofynnodd DJ a oedd gan unrhyw un brofiad penodol o gynnwys ysgolion yn y broses hon? Awgrymodd NR mai'r ffordd hawddaf o gael y neges i ysgolion fyddai drwy gylchlythyrau consortia ac y byddai'n rhannu manylion cysylltu. Dywedodd NW ei fod wedi gwneud ychydig o waith gydag ysgolion yn y gorffennol felly byddai'n fodlon rhannu cysylltiadau.

Gofynnodd CHJ a oedd unrhyw aelodau'n gwybod am gyllid a allai fod ar gael i gefnogi logisteg yr arddangosfa ac yn y blaen.

Awgrymodd SG y gallai Cynghorau Cymuned hefyd fod o gymorth wrth chwilio am gyfleoedd.

## 4. Homeshare Cymru – Tim Crahart, Shared Lives Plus

TC yw swyddog datblygu Homeshare Cymru yn Shared Lives Plus a rhoddodd gyflwyniad am y gwaith y mae'n ei arwain. Cyfeiriodd at nifer o enghreifftiau yn Lloegr, ond hyd yn hyn nid oes un yng Nghymru. Dywedodd eu bod wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 3 chynllun peilot yng Nghymru dros y 3 blynedd nesaf. Maent yn disgwyl clywed rhywbeth yn ystod yr wythnosau nesaf am eu rhaglen beilot gyntaf yng Nghymru. Mae ganddo arolwg yn ymwneud â Homeshare a bydd yn rhannu'r arolwg gyda'r grŵp ar ôl y cyfarfod.

**GWEITHREDU: Bydd JH yn rhannu'r cyflwyniad a'r arolwg yn dilyn y cyfarfod**

Holodd DM ynglŷn â’r mecanweithiau cefnogi sydd wedi’u sefydlu rhag ofn y bydd perchennog cartref yn marw neu rywun sy’n rhannu cartref yn symud ymlaen? Dywedodd TC y bydd ymdrech yn cael ei gwneud i chwilio am berson arall addas os bydd rhywun sy’n rhannu cartref yn symud ymlaen – os bydd person yn marw, byddant hefyd yn ceisio adleoli unrhyw bobl sy’n rhannu cartref. Dywedodd DM ei bod yn cymryd amser i greu perthynas ystyrlon â rhywun, ac y gall fod yn anodd creu perthynas ystyrlon â rhywun arall wedyn.

Roedd SM yn croesawu cynnydd Homeshare yng Nghymru a chynigiodd gysylltu â’r 50+ o fforymau yng Nghymru i anfon gwybodaeth a hwyluso unrhyw gamau dilynol. Roedd TC yn croesawu’r cynnig ac mae’n barod i fynd i gyfarfodydd ei hun neu i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ar-lein.

Holodd LJ ynglŷn â lleoliadau’r 3 chynllun peilot. Dywedodd TC eu bod ar fin cyhoeddi’r lleoliad cyntaf a’u bod yn chwilio am gyfleoedd yng ngogledd Cymru. Awgrymodd y dylai pobl gadw llygad ar eu tudalen Twitter.

Dywedodd DR y bydd NPC Cymru hefyd yn cylchredeg yr wybodaeth, ac y byddai’n fuddiol cael enghraifft o’r peilot i fynd allan gyda hynny.

Dywedodd BR fod y gwaith yn debyg i’r gwaith y mae’r NUS wedi bod yn ei wneud mewn cysylltiad ag ansawdd tai myfyrwyr, a bod llawer o fyfyrwyr yn chwilio am ddewisiadau eraill yn lle tai amlfeddiannaeth. Gofynnodd pa mor hirdymor fyddai’r syniad o brosiect Homeshare. Gofynnodd a oedd angen ymgyrch er mwyn cael y llywodraeth i gefnogi myfyrwyr neu bobl hŷn a allai fod yn agored i niwed, a thrwy hynny sicrhau nad ydynt yn gyfan gwbl ddibynnol ar Homeshare. Dywedodd TC mai’r farn gyffredinol, hyd yn oed heb gefnogaeth ychwanegol, oedd bod Homeshare yn dal i fod o fudd i bobl a’i fod yn fanteisiol i’r ddwy ochr.

## 5. Ready Generations – Sue Egersdorff

Cyfeiriodd SG at ei chefndir yn gweithio gyda Cychwyn Cadarn *(Sure Start)*. Ar ôl ymddeol penderfynodd sefydlu Ready Generations er mwyn llenwi ambell fwlch a dod â chenedlaethau at ei gilydd. Gofynnodd pa mor bell yr oedd Cymru wedi mynd â safonau a chynlluniau babanod UNICEF, a dywedodd y gallai hyn fod yn rhywbeth y byddai’r grŵp yn dymuno meddwl amdano. Dywedodd ei bod wedi cynnal ymgyrch yn ymwneud â ‘storïau poced’ lle’r oedd pobl iau a phobl hŷn yn gorfod creu storïau am bethau a oedd ganddynt yn eu pocedi.

Cyfeiriodd SG at brosiect y mae’n gyfrifol amdano yng Nghaer lle mae meithrinfa yn rhan o hyb gwybodaeth. Cyfeiriodd at bwysigrwydd dull integredig o bontio’r cenedlaethau. Bydd y Ganolfan yn agor ym mis Ebrill 2022 ac mae’n awyddus i weld newid yn y dull gweithredu i bentref preswyl. Dywedodd fod y prosiect yn awyddus i greu cymuned sydd wedi’i grymuso i fod â rheolaeth dros y camau y mae’n eu cymryd.

Dywedodd fod y model hwn yn edrych ar y cryfderau sydd gan bobl iau a phobl hŷn i’w rhannu â’i gilydd. Er enghraifft, gall plant a phobl ifanc fod yn gwmni gwych i bobl hŷn, ac mae gan bobl hŷn yn aml iawn rywbeth i’w roi yn ôl i bobl ifanc. Mae’r prosiect yn defnyddio Nodau Datblygu Cynaliadwy’r Cenhedloedd Unedig i ddod â phobl iau a phobl hŷn at ei gilydd i feddwl am y dyfodol.

Cyfeiriodd SG at bwysigrwydd amgylchedd sy'n cysylltu, er enghraifft yr awyr agored, ac mae ymgysylltu â natur yn aml yn gyffredin ar draws y cenedlaethau – mae elfen natur awyr agored i'r ganolfan newydd sy'n cael ei datblygu. Bydd meithrinfa i 25 o blant a bydd yn feithrinfa ymchwil – maent yn ymwneud â phrifysgolion, gan gynnwys Prifysgol Stirling a Phrifysgol John Moores yn Lerpwl. Bydd y feithrinfa ar agor 7 niwrnod yr wythnos a bydd yn cefnogi gweithwyr sy'n gweithio drwy gydol yr wythnos. Yn ychwanegol at hyn bydd llyfrgell pontio'r cenedlaethau, ystafell arddio, canolfan ddysgu ac ystafell feithrin. Bydd pobl hŷn yn cael eu gweld fel dysgwyr, ochr yn ochr â'r bobl iau a phlant, a byddant yn cael eu galluogi i barhau i gyfrannu.

Dywedodd SG fod angen i'r 'arweinyddiaeth drawsnewidiol' alluogi'r gwaith hwn i ddigwydd a'r hyfforddiant sy'n gysylltiedig â datblygu'r model. Cyfeiriodd at y ffaith fod angen ystyried mater diogelu, oherwydd yr amgylchedd 'naturiol' a'r mater a godwyd yn gynharach yn ymwneud â phrofedigaeth.

**GWEITHREDU: Bydd JH yn rhannu manylion cyswllt Sue â'r grŵp.**

## 6. Y Diweddaraf ynglŷn â'r Cynllun Gweithredu

Awgrymodd JH y dylai'r grŵp symud ymlaen â thrafodaethau fel grwpiau blaenoriaeth er mwyn datblygu syniadau ar gyfer y cynllun gweithredu.

Cyfeiriodd SM at bwysigrwydd datblygu cynllun gweithredu cynaliadwy, yn hytrach na gwneud pethau'n gyflym.

Cytunodd y grŵp â'r ffordd o symud ymlaen a awgrymwyd.

## 7. Syniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf

Gofynnodd DJ am syniadau ynglŷn â phobl a oedd eisiau cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Awgrymodd JH y gallem gael trafodaeth am gynlluniau ar gyfer Wythnos Pontio'r Cenedlaethau.

Cyfeiriodd LJ at brosiect Troed-y-rhiw a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf a dywedodd y byddai'n un da i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

Holodd SG ynglŷn â'r syniad o ysgrifennu at Weinidogion ynglŷn â chynllun adferiad ar ôl Covid-19. Awgrymodd DJ y gallai fod yn rhywbeth y byddem yn hoffi dod yn ôl ato yn y gwanwyn gan gymryd bod y sefyllfa'n newid, a chytunodd i gyfarfod JH i drafod y mater ymhellach.

## 8. Unrhyw fater arall

Dim.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener 18 Chwefror 2022, 11am-12:30pm**